# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 2

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

*Cyfeiriadau yn neddfwriaeth Cymru at ddeddfwriaeth a dogfennau eraill*

### 23 Argraffiadau o Ddeddfau gan Senedd y Deyrnas Unedig y cyfeirir atynt

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo **[**[F1]Deddf gan Senedd Cymru**]** neu is-offeryn Cymreig yn cyfeirio at Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig (pa un yn ôl ei henw byr ynteu yn ôl blwyddyn, statud, sesiwn neu bennod).

(2) Mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at y Ddeddf fel y'i deddfwyd a gyhoeddir—

(a) gan Argraffydd y Frenhines, neu

(b) o dan oruchwyliaeth neu awdurdod Llyfrfa Ei Mawrhydi.

(3) Ond—

(a) pan fo'r cyfeiriad yn gyfeiriad at Ddeddf sydd wedi ei chynnwys mewn argraffiad diwygiedig o'r statudau a argreffir drwy awdurdod, mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at yr argraffiad hwnnw;

(b) pan na fo paragraff (a) yn gymwys a phan fo'r cyfeiriad yn gyfeiriad at Ddeddf sydd wedi ei chynnwys yn yr argraffiad a luniwyd o dan gyfarwyddyd y Comisiwn Cofnodion, mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at yr argraffiad hwnnw.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Deddf wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(8)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 23 mewn grym ar 11.9.2019 at ddibenion penodedig, gweler **a. 44(1)(c)**

**I2** A. 23 mewn grym ar 1.1.2020 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2019/1333, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Adran 23.